

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	20fed Tachwedd 2018
TEITL	Diweddariad Prosiectau Gwasanaeth AHNE Llŷn
PWRPAS	Diweddarau'r Aelodau
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar gan y Gwasanaeth AHNE.

2.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG

- 2.1 Cynhaliwyd hyfforddiant yn ystod mis Medi i ddysgu'r grefft o adfer a chodi waliau cerrig sychion a chloddiau, sydd yn nodweddion traddodiadol pwysig yn yr AHNE.
- 2.2 Wrth gydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Choleg Meirion Dwyfor (Glynllifon) bu'r hyfforddiant ar safle'r Wal Fawr yn Llithfaen a fferm Porth Gwylan ger Tudweiliog.
- 2.3 Rydym yn hyderus fod y cyrsiau wedi bod yn llwyddiannus a'r bwriad yw cynnal eto yn 2019.

3.0 PROSIECTAU GWELLA MYNEDIAD

- 3.1 Llwyddwyd i ddenu ychydig o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith gwella mynediad yn yr AHNE. Cwblhawyd gwaith ar safle Mynydd Cefnamwlch (Llwybr Cyhoeddus Rhif 7). Saif siambr gladdu ar y safle hwn o'r cyfnod Neolithig.
- 3.2 Bellach mae yna arwydd i ddynodi'r safle, mae'r gwaith tocio coed ac ail-godi'r wal derfyn wedi creu gwelliant sylweddol i gyflwr y llwybr cyhoeddus ac mae ffens haearn bellach o amgylch y gromlech ei hun.
- 3.3 Cwblhawyd y gwaith yn ogystal ar welliannau i safle Ffynnon Saint ar Fynydd Y Rhiw. Mae arwyddion pwrpasol bellach ar y safle a gwaith clirio'r gordyfiant wedi gwella cyflwr y Ffynnon ei hun.

4.0 TEITHIAU CERDDED

- 4.1 Mae ein cyfres o deithiau cerdded ar gyfer 2018 wedi dod i ben. Cafwyd teithiau difyr yn ardaloedd Gyrn Goch, Nefyn a Rhiw a oedd yn canolbwyntio ar archaeoleg, bywyd gwyllt a threftadaeth morwrol yr ardal.

- 4.2 Rydym eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer teithiau cerdded 2019. Mae croeso i'r aelodau awgrymu teithiau fuasai o ddiddordeb neu ein cynorthwyo drwy gefnogi ar y diwrnod.

5.0 Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

- 5.1 Er gwybodaeth, roedd £55,000 yn y Gronfa ar ddechrau 2018/19. Bellach mae £2,000 yn weddill.

- 5.2 Ymysg y prosiectau a gefnogwyd eleni, mae:

- Bws Arfordir Llŷn
- Taith Tridiau Llŷn
- Eglwys Llandegwning
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Tafarn yr Heliwr
- Arddangosfa Hen Luniau – Neuadd Sarn
- Cynllun Adnewyddu Neuadd Mynytho
- Gŵyl Fwyd Pwllheli.

- 5.3 Rydym wedi derbyn cadarnhad fod y Gronfa yn parhau yn 2019/20.

6.0 ARGYMHELLIAD

- 6.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.